

CYNGOR BRO MACHNO 10 / 6 / 14

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Bro Machno yn Ffestri Capel Salem ar y 10fed o Fehefin. Yn bresennol roedd Colin Jones, Eifion Davies, Geraint Thomas, Cyril Lewis ac Eryl Owain ynghyd â'r clerc a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Aled Roberts, Dewi Jones a Dafydd Gwyndaf.

Elusen Bro Machno – Cyflwynwyd adroddiad ariannol gan Gareth Griffiths, ysgrifennydd yr elusen, a diolchwyd i Gareth a'r ymddiriedolwyr am sicrhau bod yr elusen mewn sefyllfa ariannol gref ac yn cyfrannu'n rheolaidd i achosion da yn lleol.

Cofnodion – derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.

Gwesty'r Machno – trafodaethau'n parhau gyda Menter Bro Machno a'r perchennog gyda bwriad i gael arolwg o'r adeilad fel y cam nesaf.

Toliedau – parhau i ddisgwyl ateb (ers tri mis) gan Gyngor Sir Conwy ynglŷn â dyfodol y toiledau cyhoeddus.

Llinellau Melyn – eto'n disgwyl ymateb y Cyngor Sir. Penderfynwyd cysylltu â'r Cynghorydd Wyn Jones a wedyn, os bydd angen, â'r Aelod Seneddol.

Mynwentydd – y Cadeirydd a'r clerc i drafod prisiau torri coed yn y ddwy fynwent. Nodwyd yr angen i symud gwair o Fynwent Arwelfa ac awdurdodwyd y clerc i dalu am y gwaith o drwsio pilar giât Mynwent yr Eglwys. Diolchwyd i Cyril Lewis am dorri gwair yn rhan bellaf Arwelfa.

Cynllun llwybrau – wedi derbyn llythyr gan Aled Owen, Cwm Penmachno, penderfynwyd datgan cefnogaeth i gynllun i hyrwyddo llwybrau sy'n cysylltu pentrefi gwledig.

Rheolau'r Cyngor – gofynnwyd i'r clerc baratoi adroddiad ar reolau a chyfrifoldebau ariannol y Cyngor.

Ffyrdd - rhestrwyd nifer o faterion i'r clerc eu trafod gyda swyddog lleol o adran ffyrdd y Cyngor Sir gan gynnwys mynegi pryder am effaith y loriau cludo coed ar gyflwr y bont wrth y Felin Wlân ac ar dai cyfagos.

Coed ger yr afon – mynegwyd pryder am nifer o goed sydd yn tyfu'r agos at lannau'r afon ger Pont Llan a phenderfynwyd cysylltu â'r perchnogion tir perthnasol.